



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Pecyn Gwybodaeth am Reoli Adnoddau Naturiol

Pam rydym yn cymryd camau?

- Adnoddau naturiol Cymru yw ei hadnoddau mwyaf gwerthfawr. Mae'n rhaid i gamau amgylcheddol fynd law yn llaw â chamau economaidd. Gall y fframwaith deddfwriaethol presennol ynghyd â'r camau i'w weithredu greu rhwystrau.
- Ers dros 60 mlynedd mae llywodraethau wedi ceisio diogelu, rheoleiddio a rheoli'r amgylchedd drwy ymateb i faterion unigol gan fwyaf. Canlyniad hyn yw cymysgedd cymhleth o reoliadau nad ydynt bob amser yn cyd-fynd ac yn cyflawni'r nod cyffredin o wella dyfodol hirdymor Cymru. Yn aml ni chaiff pwysigrwydd yr amgylchedd i gymdeithas ac economi Cymru yn yr hirdymor ei ystyried wrth wneud penderfyniadau.
- Mae cyfle yn awr i sefydlu fframwaith statudol a modern a fydd yn ein galluogi i reoli ein hadnoddau naturiol mewn modd gwell, gan gyflawni canlyniadau da ar gyfer pobl, busnesau ac amgylchedd Cymru.
- Mae Rhaglen Lywodraethu 2011 yn pwysleisio pwysigrwydd rheoli ein hadnoddau naturiol mewn modd mwy integredig. Rydym wedi llunio nifer o ymrwymïadau ar gyfer cyflawni hyn o safbwynt:
 - datblygu cynaliadwy
 - rheoli hadnoddau naturiol mewn modd integredig
 - cyflenwi Bil yr Amgylchedd
 - sefydlu corff amgylcheddol sengl ar gyfer Cymru
- Rydym yn awyddus i reoli ein hadnoddau naturiol yn well er mwyn cyflawni canlyniadau da ar gyfer yr amgylchedd, pobl, a'r economi. Galwn hyn yn rheoli hadnoddau naturiol mewn modd integredig.

Pam y mae angen newid?

- Mae'r fframwaith rheoleiddiol presennol yn canolbwyntio ar gyfyngiadau amgylcheddol, gan amddiffyn yr hyn sydd ar ôl yn hytrach na chwilio am gyfleoedd ar gyfer y dyfodol.
- Methiant i gyflawni targedau 2010 ynghylch bioamrywiaeth a'r ffaith bod gwasanaethau ecosystem yn parhau i ddirywio.
- Effeithiau'r newid yn yr hinsawdd - mae mwy a mwy o dystiolaeth fod gweithgarwch dynol wedi effeithio ar fathau eithafol o dywydd ac y bydd yn parhau i achosi newidiadau pellach yn y dyfodol. Gallai hyn effeithio ar ein heconomi, ein cymunedau a'n hadnoddau naturiol.
- Caiff tystiolaeth ei defnyddio mewn modd anghyson gan bobl sy'n gwneud penderfyniadau.
- Yn aml caiff gweithdrefnau cyfreithiol eu hystyried yn weithdrefnau cymhleth a haearnidd.
- Rydym yn colli cyfleoedd ar gyfer elwa i'r eithaf ar ein hadnoddau naturiol.


Beth sydd wedi'i gyflawni hyd yma?

- Rydym wedi ymgynghori ynghylch ein cynlluniau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd well yn 2010 a 2012.
- Rydym wedi creu corff amgylcheddol sengl newydd ar gyfer Cymru sef Cyfoeth Naturiol Cymru. Cafodd ei lansio ym mis Ebrill 2013 ac mae'n gam mawr ymlaen tuag at reoli mwy unedig. Rydym yn cydweithio'n agos â'r asiantaeth newydd er mwyn cyflenwi ein hymrwymiaadau.
 - Gwnaethom greu'r Rhaglen Rheoli Adnoddau Naturiol er mwyn cyflenwi:
 - mesurau polisi newydd ar gyfer rheoli ein hadnoddau naturiol
 - Bil yr Amgylchedd ar gyfer Cymru
 - sefydlu'r dull ecosystem
 - cydgysylltu gwaith â Cyfoeth Naturiol Cymru
 - gwaith cyfathrebu a throsglwyddo gwybodaeth er mwyn cyflenwi'r dull newydd

Beth mae'r Rhaglen Rheoli Adnoddau Naturiol wedi'i cyflawni hyd yn hyn?

- Cyhoeddi Datganiad ar Lefel Uchel – Llunio Dyfodol Ffyniannus a Chydnerth ym mis Hydref 2013.
- Cyhoeddi Papur Gwyn Bil yr Amgylchedd ar gyfer ymgynghoriad rhwng mis Hydref 2013 a mis Ionawr 2014.
- Cynhaliodd y Prif Weinidog a'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd gynhadledd Adnoddau Naturiol ym mis Tachwedd 2013.
- Digwyddiadau ymgynghori rhanbarthol ym mis Rhagfyr 2013 (Merthyr Tudful, Aberystwyth, Cyffordd Llandudno, Caerdydd) ac ym mis Ionawr 2014 (Caerdydd).
- Gweithdai ar y Gronfa Natur ym mis Rhagfyr 2013 (Merthyr Tudful, Aberystwyth, Cyffordd Llandudno, Caerdydd).

Strwythur Llywodraethu'r Rhaglen Rheoli Adnoddau Naturiol



Beth yw Rheoli Adnoddau Naturiol?

- Ystyr rheoli adnoddau naturiol yw rheoli'n hamgylchedd naturiol mewn ffordd unedig sy'n cyflawni canlyniadau gwirioneddol i'r amgylchedd, pobl, yr economi a'n cymunedau.
- Mae'n ddull cyffredin o wneud penderfyniadau am ein hadnoddau naturiol a'r rheolaeth ohonynt mewn ardal benodol.
- Mae'n ddull ar gyfer pob lefel o'r broses o wneud penderfyniadau, o'r Llywodraeth ganolog i dirfeddianwyr.
- Mae'n ymwneud ag ystyried y cyfleoedd amgylcheddol ynghyd â'r terfynau amgylcheddol.

Beth y mae hyn yn ei olygu mewn gwirionedd?

- Mae'n darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn modd cydlynus.
- Gallwn nodi cyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol er mwyn cyflawni'n well ganlyniadau hirdymor ar gyfer ein cymdeithas, ein heconomi a'n hamgylchedd.
- Mae'n cynnwys pobl a chymunedau sy'n helpu i wneud gwell penderfyniadau.
- Gallwn ategu penderfyniadau â thystiolaeth, gan sicrhau capasiti a dealltwriaeth o effeithiau hirdymor.
- Bydd yn helpu i gyflawni ein targed bioamrywiaeth ar gyfer 2020, ynghyd â chanlyniadau datblygu economaidd a chanlyniadau cymdeithasol ehangach a chynaliadwy.

Yr hyn yr ydym am ei gyflawni

- Rydym yn awyddus i sicrhau bod ein hadnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n well gan eu bod yn sail i'n ffordd o fyw. Rydym hefyd yn awyddus i sicrhau ein bod yn elwa i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ynghlwm wrth ein hadnoddau naturiol.
- Mae angen i hyn barchu terfynau prosesau naturiol sy'n parhau i fod yn rhan gwbl anhepgor o'n bywydau. Ein prif nod yw sicrhau bod gan Gymru ecosystemau sy'n gynyddol gydnerth ac amrywiol ac sy'n cyflawni manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.
- Gellir cyflawni hyn drwy reoli adnoddau naturiol yn well.

Sut y byddwn yn ei gyflawni?

Newid dulliau gweithredu a fydd yn cynnwys:

- Sefydlu'r dull integredig hwn o reoli adnoddau naturiol o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru, ac ar draws y Llywodraeth lle y bo'n briodol, ac mewn mannau eraill;
- Gwella'r system reoleiddio, drwy Fil yr Amgylchedd, ac o bosibl drwy ddeddfwriaeth ychwanegol yn y dyfodol;
- Newid ymddygiadau, er enghraifft o ran y ffordd y caiff penderfyniadau eu gwneud er mwyn adlewyrchu cynllunio ar sail ardaloedd;
- Cyflwyno'r Bil Amgylchedd;
- Datblygu'r Gronfa Natur gwerth £6m.

Beth yw nod Bil yr Amgylchedd?

- Sefydlu fframwaith statudol a modern ar gyfer rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy drwy ddeddfu ar gyfer proses sy'n fwy unedig a rhagweithiol.
- Sefydlu'r trefniadau llywodraethu er mwyn sicrhau ein bod yn defnyddio ac yn rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn modd a fydd yn cyflawni manteision economaidd a chymdeithasol ynghyd â manteision amgylcheddol.
- Cyflawni gwell canlyniadau ar gyfer Cymru drwy helpu i waredu unrhyw gymhlethdodau diangen a symleiddio prosesau.

Sut y caiff hyn ei gyflawni?

Mae cynigion y Papur Gwyn wedi'u rhannu'n 4 prif thema:

- **Thema 1** –yn edrych ar **gydgysylltu'r** fframweithiau statudol presennol ar gyfer cynllunio a rheoli adnoddau naturiol yng Nghymru.
- **Thema 2** yn ystyried cynigion i sicrhau bod gan Gyfoeth Naturiol Cymru yr **arfau cywir** a fydd yn eu galluogi i weithredu dull unedig ar gyfer rheoli adnoddau naturiol.
- **Thema 3** yn amlinellu camau i sicrhau bod y defnydd gorau posibl yn cael ei wneud o adnoddau naturiol Cymru ac er mwyn **lleihau** gwastraff.
- **Thema 4** yn amlinellau cynlluniau i symleiddio a chysoni'r gyfraith ynghylch nifer o drefniadau rheoleiddio amgylcheddol presennol a'i gwneud yn fwy clir.

Thema 1: Rheoli Adnoddau Naturiol

Nodau:

- Sefydlu diffiniad cyfreithiol ar gyfer Adnoddau Naturiol yng Nghymru - bydd hyn yn ategu'r modd y caiff swyddogaethau a dyletswyddau Cyfoeth Naturiol Cymru eu dehongli a'u gweithredu, a hefyd yn helpu i gyflawni eu prif ddiben
- Darparu'r fframwaith ar gyfer dull unedig o reoli ein hadnoddau naturiol. Mae hyn yn cynnwys cynigion ynghylch dull cynllunio newydd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol sy'n canolbwyntio ar ardaloedd penodol.

Thema 2: Cyfleoedd ar gyfer cyflawni

Nodau:

- Sicrhau bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru y dulliau ar gyfer gweithio mewn modd arloesol a fydd yn hybu manteision economaidd a manteision cymdeithasol ehangach. Mae hyn yn cynnwys Daliadau ar gyfer Gwasanaethau Ecosystem, rheoli cytundebau a phwerau arbrolfol ar gyfer profi a threialu dulliau arloesol
- Sicrhau bod newidiadau yn y dyfodol i'n deddfwriaeth sylfaenol yn cyflawni dull unedig lle y ceir rhwystrau penodol o hyd sy'n cyfyngu ar allu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni ei ddiben statudol

Thema 3: Effeithlonrwydd Adnoddau

Nod:

- Helpu i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon ac elwa i'r eithaf ar y cyfleoedd sy'n deillio o drosglwyddo i economi sy'n fwy gwyrdd.



Thema 4: Galluogi Gwell Dulliau Rheoli

Nod:

- Mynd ati i geisio symleiddio, cysoni neu egluro'r gyfraith mewn perthynas â: Thrwyddedu Morol, Rheoli Pysgodfeydd Cregyn, Rheoli Llifogydd a Dŵr a Draenio Tir.



Yr hyn yr ydym am ei gyflawni....

- **Ar gyfer busnesau**

Er enghraifft - sicrhau rhagor o eglurder ynghylch y cyfleoedd, y risgiau a'r heriau sydd ynghlwm wrth reoli adnoddau naturiol a darparu gwell cymorth ar gyfer marchnadoedd newydd ym maes gwasanaethau amgylcheddol er mwyn hybu'r agenda twf Gwyrdd.

- **Ar gyfer cymunedau**

Er enghraifft - Bydd cynllunio adnoddau naturiol yn sicrhau bod ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn cael eu hystyried yn briodol wrth wneud penderfyniadau ac yn sicrhau buddsoddiad mwy penodol mewn amgylcheddau lleol.

- **Ar gyfer amgylchedd**

Er enghraifft - Bydd rheoli adnoddau naturiol fel ffocws cynllunio sengl yn sicrhau penderfyniadau mwy cytbwys ynghylch defnyddio tir, aer ac adnoddau dŵr yn fwy cynaliadwy, gan gydnabod anghenion yr amgylchedd naturiol a chenedlaethau'r dyfodol.

Sut mae Bil yr Amgylchedd yn gydberthyn â'r Biliau eraill?

Mae yna nifer o Filiau cysylltiedig sy'n cynnwys Bil Cenedlaethau'r Dyfodol, Bil yr Amgylchedd, y Bil Diwygio Cynllunio, y Bil Tai, y Bil Treftadaeth a'r Bil Mynediad a fydd yn sicrhau bod:

- Penderfyniadau gan Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn hybu'r economi, cymunedau, a'r amgylchedd yng Nghymru;
- Anghenion cenedlaethau'r dyfodol yn cael eu hystyried;
- Prosesau tryloyw, a bod cymunedau wedi'u cynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt;
- Prosesau wedi'u symleiddio ac nad yw gwaith yn cael ei ddyblygu;
- Blaenoriaethau'n ymwneud â'r hyn sydd i'w gyflawni, a bod ffyrdd o wella'n cael eu hystyried, er enghraifft drwy gydweithredu ag eraill.

Beth yw'r Gronfa Natur gwerth £6m?

- Llynedd cyhoeddodd Alun Davies, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ei fod yn sefydlu Cronfa Natur gwerth £6m er mwyn hybu ffyrdd o gydweithio ar sail ardal i gryfhau byd natur a pharhau i gefnogi anghenion ein cymdeithas.
- Wrth ddatblygu'r Gronfa Natur, roeddem eisiau sicrhau ein bod yn gwranddo ar y rheini sy'n rheoli ein hadnoddau naturiol a'n tir. Am y rheswm hyn, fe wnaethom gyhoeddi galwad am syniadau. Daeth dros 460 o syniadau i law ar gyfer y gronfa gan amrywiaeth eang o unigolion a chyrff.
- Mae'r syniadau ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru (lle mae'r rhanddeiliaid perthnasol wedi cytuno iddynt gael eu cyhoeddi). Ein nod wrth gyhoeddi'r syniadau yw i'r rhanddeiliaid weld y themâu sy'n datblygu, nodi cysylltiadau rhwng syniadau a gweld lle gellid cydweithio yn y dyfodol.
- Bydd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd yn gwneud cyhoeddiad yn fuan ynghylch camau nesaf y Gronfa Natur.

Y Camau Nesaf ac Amserlenni

- **Cyllid newydd gwerth £6m er mwyn cefnogi arloesi ym maes rheoli natur ac adnoddau naturiol. Bydd y Gweinidog yn gwneud cyhoeddiad yn fuan ynghylch camau nesaf y Gronfa Natur.**
- **Adolygu'r angen am ddeddfwriaeth yn y dyfodol.**

Sut i gymryd rhan

- Ewch i wefan
www.wales.gov.uk/naturalresourcemanagement
- Os hoffech fod ar restr ddsbarthu ein e-fwletin, e-bostiwch
naturalresourcemanagement@cymru.gsi.gov.uk
- Dilyn y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ar Twitter @WG_NatResMin